CYNGOR TREF NEFYN

# COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 10/03/2026 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Caren Jones | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Rhian Sanson |
| Gwynfor Jones | Gruffudd Griffiths | Lleucu Jones | Gito Williams | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Rhys Llewelyn, Iwan Evans, Gareth Jones, Carys Roberts, Catrin Roberts a Pat Humphreys.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Mared Llywelyn Williams – Eitem 14.1.a 14.2 a 14.3 a 14.6 a 14.8.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 10/02/2026
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Gwynfor Jones Eilio: Arfon Hughes

4. **Unrhyw Fater Brys**
   1. **Dewis lleoliad i'r 4 planter –** Clerc
      Dewiswyd un lleoliad sef Groesffordd Edern ac mae'r tri lleoliad arall am gael eu dewis dros ebost. Mae aelod lleol Nefyn am ddod i nol y planters a'u gosod yn y 4 lleoliad.
      Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gruffudd Griffiths
   2. **Mesurydd trydan Siop Siarad –** Clerc
      Mae'r clerc wedi derbyn llythyr gan E.On Next yn dweud bod rhaid newid y mesurydd i un 'smart'.
      Penderfyniad: y Clerc i gysylltu i ddweud ein bod yn hapus hefo'r mesurydd sydd yna yn barod a ddim eisiau ei newid i 'smart meter'.
      Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Gito Williams
   3. **Gwaith ychwanegol y contractwr torri llwybrau –** Clerc
      Mae un o aelodau Morfa wedi gofyn am gael torri y llecynnau gwyrdd o gwmpas y pentrefi cyn y Pasg ac yn unôl â'r gytuneb newydd fe fydd yn rhaid gofyn i'r ymgymerwr newydd am amcanbris i wneud y gwaith felly mae'r clerc am gysyltlu hefo fo ac am anfon y pris i bawb drwy ebost i gael gwneud penderfyniad ar frys.

5. **Archwiliad CTN 2024-2025 – cwblhau archwiliad allanol ac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinnol ar gyfrifon 2024-2025 –** Clerc
   Mae'r clerc wedi derbyn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinnol ar gyfrifon 2024-2025, mae bob dim wedi cael ei wneud yn iawn ac mae'r archwiliad wedi cael ei basio yn ddiamod. Fe fydd y cyfrifon yn

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

cael eu harddangos yn Siop Siarad ac ar wefan CTN ac felly mae angen penderfynnu ar ffi i godi am gopiau os y bydd unrhyw un yn gofyn am gopi.
Penderfyniad: cytunwyd ar yr un ffi a llynedd sef £10 y copi.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Gwynfor Jones

6. **Tendar Cytundeb 3 mlynedd Mynwentydd –** Clerc
Mae'r clerc wedi derbyn un pris.
Penderfyniad: derbyn y pris.
Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Arfon Hughes

7. **Sedd Wag Ward Morfa Nefyn –** Clerc
Mae'r clerc wedi derbyn un cais.
Penderfyniad: Cynnig y sedd wag i'r ymgeisydd yma.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Gwynfor Jones

8. **Cynllun Partneriaeth Toiledau Cyhoeddus** – Clerc & Gruffydd Williams
Derbyniwyd ebost gan Cyngor Gwynedd yn dweud bod cost cyfraniad ar gyfer y toiledau yn cynyddu ohewrydd chwyddiant dros y blynyddoedd, ond oherwydd nad yw'r wybodaeth wedi cael ei dderbyn gan CTN cyn gwneud y gyllideb i osod y praesept ni fydd modd codi'r cyfraniad am y flwyddyn 2026-2027. Mae'r clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ddweud hyn a derbyniwyd cadarnhad y bydd y ffigyrau yn aros yr un fath am 2026-2027 a bydd y chwyddiant yn cael ei ychwanegu i flwyddyn 2027-2028. Diolchodd yr aelodau i aelod lleol Nefyn am ei waith ar y mater yma.
Penderfyniad: Y clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i dderbyn y cynnig ac hefyd i ddweud wrthynt y bydd rhaid derbyn y wybodaeth am y costau o hyn allan erbyn mis Awst fel ei fod yn cael ei gymeryd i ystyriaeth pan yn gwneud y gyllideb ar gyfer gosod y praesept.
Cynnig: Arfon Hughes Eilydd: Rhian Sanson

9. **Carreg sy'n dal giat mynwent Fron –** Gruffydd Williams
Mae aelod lleol Nefyn wedi derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â cyflwr y garreg ac mae o wedi gofyn am bris gan gwmni lleol i'w gwneud yn saff, fe fydd yn rhaid cael dau bris felly cynnigiwyd i'r clerc gysylltu hefo cwmni arall erbyn y cyfarfod nesaf.
Cynnig: Lleucu Jones Eilio: Gito Williams

10. **Byrddau picnic newydd i'r Ddôl –** Gruffydd Williams
Mae'r byrddau picnic yn y Ddôl wedi bod yno ers tua 10 mlynedd ac wedi gweld dyddiau gwell felly mae aelod lleol Nefyn wedi cael amcanbris rhai newydd gan gwmni lleol. Cynnigwyd y dylai cael pris am un i gadeiriau olwyn fel eu bod yn hygyrch a cael gro o dan yr un hygyrch gan fod y tir yn gallu bod yn wlyb, mae'r clerc am ofyn i gwmni arall am bris hefyd erbyn y pwyllgor nesaf.

CYNGOR TREF NEFYN

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 10/03/2026 am 7yh

11. **Bin cae chwarae y Ddôl –** Clerc
Derbyniwyd ebost gan Cyngor Gwynedd ynglŷn â bin sydd yn cae chwarae y Ddôl, mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn gwagio'r bin ond wedi sylweddoli nad yw'r bin ar eu system nhw ac felly nid ydynt i fod yn gyfrifol amdano. Mae Cyngor Gwynedd yn gofyn os ydi CTN eisiau parhau hefo'r gwasanaeth yma o wagio'r bin am ffi blynyddol. Nid yw'r aelodau yn ymwybodol o unrhyw finiau eraill yn yr ardal.
Penderfyniad: parhau hefo'r gwasanaeth am y ffi sydd wedi cael ei gynnig yn yr ebost ar arian yn dod o gyfrif CTN.
Cynnig: Gruffudd Griffiths Eilio: Arfon Hughes

12. **Ail leoli diffib Eglwys Dewi Sant i'r Amgueddfa Forwrol – diweddariad –** Clerc
Mae diweddariad wedi cael ei dderbyn sef bod adran Cynllunio Cyngor Gwynedd wedi gwrthod caniatad i leoli'r diffib y tu allan i'r amgueddfa gan ei fod yn adeilad rhestredig ac felly mi fysa'n rhaid ei leoli y tu mewn, yr unig broblem am hynny yw nad fyddai mynediad iddo 24 awr o'r dydd gan bod y ddau ddrws yn cael ei gloi pan mae'r amgueddfa ar gau.
Penderfynwyd i beidio ei symud a'i adael yn Eglwys Dewi Sant am y tro.

13. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
    1. **Emyr Roberts –** Gwarchod Enwau Lleoedd Cymraeg
    Penderfyniad: Cefnogi'r cynnig.
    Cynnig: Lleucu Jones Eilio: Gruffudd Griffiths

14. **Ceisiadau am Gyfraniadau Ariannol**
    1. **Côr Cantorion Llŷn**
    Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £300
    Cynnig: Gruffudd Griffiths Eilio: Lleucu Jones
    2. **Cronfa Cyfle i Bawb Urdd Gobaith Cymru 2026**
    Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £500
    Cynnig: Rhian Sanson Eilio: Gruffudd Griffiths
    3. **Theatr Bara Caws**
    Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £200
    Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Gruffudd Griffiths
    4. **Clwb Ffermwyr Ifanc Godre'r Eifl**
    Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £250
    Cynnig: Gito Williams Eilio: Gruffydd Williams

CYNGOR TREF NEFYN

## COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 10/03/2026 am 7yh

5. **Marie Curie Great Daffodil Appeal 2026**
   Penderfyniad: dim cyfraniad
   Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Arfon Hughes
6. **Pwyllgor Rhanbarth Urdd Gobaith Cymru Eryri**
   Penderfyniad: £500
   Cynnig: Lleucu Jones Eilio: Gwynfor Jones
7. **Ambiwlans Awyr Cymru**
   Penderfyniad: angen mwy o wybodaeth cyn penderfynnu.
   Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Mared Llywelyn Williams
8. **Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn 2026**
   Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £500
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gruffudd Griffiths
9. **Tom Froom**
   Penderfyniad: rhoi cyfraiad o £1000
   Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Gwyfor Jones

**15. Ceisiadau Cynllunio**
Dim.

**16. Ceisiadau Diweddarach**
Dim.

**17. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1496.18 (taliad Bacs)
- D Jones – gwaith cynnal a chadw o amgylch Côf Golofn Nefyn - £242.00
- Nefyn Foods Ltd – rent Siop Siarad - £780.00
- Un Llais Cymru – tanysgrifiad - £684.00
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £30.79
- D M Parry – taliad 1 a 2 mynwent Fron a gwaith ychwanegol - £400.00
- Tyddyn Sachau – £27.96 Blodau Morfa & £140.42 Blodau Edern - £168.38
- HMRC – PAYE mis 11 - £628.38
- E.On Next – trydan Llyfrgell mis Chwefror - £168.39

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gwynfor Jones

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

**18. Taliadau wedi eu derbyn**

- Cyngor Gwynedd – Ad-daliad cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus - £2757.62
- Siop Madryn – coeden nadolig Nefyn - £137.50
- Ifan Hughes – angladd Jill Mary Hughes - £1350.00
- Tŷ Cod – coeden nadolig Morfa - £20.00
- G D Roberts – angladd Dilys Jones - £965.00